**Adroddiad ar**

# Camau Cyntaf – First Steps Cylch Meithrin Ynysybwl

**Glyn Street**
**Church Vestry**
**Ynysybwl**
**Pontypridd**
**CF37 3DS**

**Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Camau Cyntaf – First Steps Cylch Meithrin Ynysybwl

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Camau Cyntaf - First Steps Cylch Meithrin Ynysybwl |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Lisa Thomas |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Stephanie Williams |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 3 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun - Ddydd Gwener 8:45-3:30 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Dwyieithog |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sydd yn gweithio tuag at ddarparu Cynnig Gweithredol y Gymraeg, ac yn bwriadu bod yn wasanaeth dwyieithog neu'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 14/02/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 12/06/2012 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 29/03/2022 |
| Ychydig iawn o blant sy'n siarad Cymraeg yn y cartref. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg fel bod ymarferwyr yn rhoi digon o gyfleoedd i’r plant ymateb yn yr iaith

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu'n hynod gyflym ac yn llunio ymlyniadau emosiynol cadarnhaol gydag ymarferwyr a phlant eraill. Maent yn frwdfrydig wrth gyrraedd ac yn mynd yn syth at yr amrywiaeth eang o weithgareddau ac adnoddau sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, aeth tua hanner i chwarae gyda thoes yn syth ac maent wrth eu bodd yn dewis torrwyr o siapau gwahanol i dorri'r toes. Gyda chymorth, mae'r plant yn mwynhau cydganu am siarc wedi i un ohonynt ddod o hyd i dorrwr siâp siarc.

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn mynegi eu barn ac yn cyfrannu syniadau'n gyson at y cynllunio. Er enghraifft, ar ôl iddynt fynegi eu bod eisiau dysgu am ddeinasoriaid maent bellach yn gwneud hynny ac yn mwynhau defnyddio'r amrywiaeth o adnoddau newydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos agwedd bositif tuag at eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau priodol ac yn dechrau deall eu sgiliau mewn perthynas â risg ac yn gallu taro hoelion i foncyff gyda mwrthwl yn gelfydd.

Mae'r rhan fwayf o blant yn mwynhau'r gweithgareddau ysgogol. Mae llawer wrth eu bodd yn defnyddio brwsh paent a dŵr i olchi'r rheilings, yn creu marciau gyda sialc a phaent ac yn cymryd tro i daflu peli at darged. Mae plentyn yn llawn cyffro wrth ddangos ei fod yn gallu dringo wal gyda chymorth ac yn falch iawn wrth iddo gymharu ei gamp gydag archarwr.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd arbennig i feithrin sgiliau annibyniaeth ac mae'r adnoddau bywyd go iawn yn cyfrannu at hynny. Mae bron bob un yn symud yn hyderus ac yn annibynnol o un ardal i'r llall gan ddewis teganau ac offer priodol. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod sut i gadw'n iach, er enghraifft, maent yn golchi dwylo'n drwyadl wrth gyrraedd a chyn bwyta bwyd. Mae helpwr y dydd yn mwynhau rhannu llestri gyda'r plant adeg byrbryd. Mae tua hanner yn hoffi helpu i dacluso a glanhau'r byrddau a'r lloriau ac yn defnyddio cyfarpar sy'n addas i'w hoed wrth wneud. Mae bron bob plentyn yn gallu adnabod ei got a llawer yn gallu gwisgo eu cotiau'n annibynnol.

Mae'r plant yn datblygu sgiliau cymdeithasu da. Maent yn croesawu ffrindiau pan maent yn cyrraedd ac yn cyd-chwarae'n frwdfrwydig. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn hollol briodol. Maent yn dysgu i barchu eu hamgylchfyd ac mae bron bob un yn ailgylchu deunyddiau a gwaredu â bwyd yn annibynnol. Cânt gyfleoedd di-rif i ddefnyddio adnoddau bywyd go iawn. Er enghraifft, maent yn defnyddio morthwyl mewn amgylchedd diogel. Mae'r byrbrydau yn achlysuron cymdeithasol lle mae'r rhan fwyaf yn mwynhau helpu ei gilydd a sgwrsio'n bwrpasol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch ac iechyd y plant. Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob ymarferwr yn mynychu hyfforddiant diogelu pwrpasol a rheolaidd ac mae'r arweinwyr yn mynychu hyfforddiant lefel uwch. Maent yn ymwybodol iawn o'u cyfrifoldebau o ran amddiffyn plant ac mae'r polisi diogelu yn gynhwysfawr. Mae'r ymarferwyr wedi mynychu amrywiaeth eang o hyfforddiant priodol gan gynnwys asesiadau risg, cymorth cyntaf, alergeddau a hylendid bwyd. Maent yn cofnodi damweiniau ac yn gweinyddu cymorth cyntaf yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn paratoi byrbrydau pwrpasol sy'n cynnig amrywiaeth da o fwyd iach i'r plant ac mae hyn yn atgyfnerthu eu hymwybyddiaeth o arferion bwyta'n iach. Mae'r trefniadau ar gyfer plant sydd ag alergeddau yn dda iawn. Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau corfforol cyffrous yn rheolaidd, gan gynnwys sesiynau dawnsio, dringo neu daflu peli yn yr ardal dan do a thu allan. Gwna'r ymarferwyr bob ymdrech i sicrhau gweithdrefnau hylendid da. Er enghraifft, maent yn diheintio'r byrddau cyn ac ar ôl byrbrydau ac yn addysgu'r plant am bwysigrwydd golchi dwylo a thacluso.

Mae'r holl ymarferwyr yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda iawn, a thrwy hynny maent yn cynllunio'n bwrpasol ar eu cyfer. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u hanghenion, eu galluoedd a'u diddordebau unigol. Caiff yr ymarferwyr lawer o wybodaeth ddefnyddiol am gefndir ac anghenion unigol y plant cyn iddynt ddechrau ac mae'r gweithwyr allweddol yn cadw cysylltiad agos gyda'r rhieni neu ofalwyr. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn dda iawn.

Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio'n dda gyda'r plant. Maent bob amser yn garedig ac addfwyn wrth siarad â'r plant gan greu awyrgylch hamddenol. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddiffinio ac arwain eu chwarae eu hunain a dim ond yn ymyrryd pan fo angen. Mae tua hanner yr ymarferwyr yn ymestyn dealltwriaeth y plant trwy gwestiynu'n sensitif. Defnyddia'r ymarferwyr strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ac maent yn gosod ffiniau cadarn mewn ffordd deg. Mae bron bob un yn canmol y plant yn aml ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hunanhyder y plant.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo cyfleoedd i blant ddysgu a datblygu mewn modd effeithiol. Maent wedi mynd ati i wreiddio cynllun effeithlon sy'n hybu'r defnydd o adnoddau naturiol er mwyn datblygu dychymyg y plant, eu sgiliau datrys problemau ac annibyniaeth. Maent yn cyflwyno rhigymau Cymraeg a llythrennedd adeg cylch ac yn rhoi amser i blant drafod emosiynau. Maent yn annog plant i fynegi eu teimladau ac i geisio esbonio'r rheswm.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r holl ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu pwrpasol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar wybodaeth a dealltwriaeth y plant. Mae eu haddysgu brwdfrydig yn cymell y plant i gydweithio’n gynhyrchiol, sy’n datblygu eu medrau’n llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn awyddus i’r plant i gymryd risgiau synhwyrol trwy arbrofi’n ddeallus yn eu chwarae a'u dysgu annibynnol. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu a chwarae buddiol sy’n annog y plant i fentro ac i ddatblygu’n archwilwyr hyderus yn eu hamgylchedd.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod gweithgareddau’r plant, sy’n cynnig cyfleoedd effeithiol i’r plant ddysgu’n annibynnol. Maent yn cynnal trafodaethau llewyrchus gyda'r plant ar sut i wella’u gwaith. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn defnyddio arsylwadau ac asesiadau’n effeithiol i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn natblygiad y plant.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys, sy’n adlewyrchu diddordebau’r plant yn dda. Maent yn cynllunio gweithgareddau difyr sy'n datblygu medrau gwybyddol y plant yn llwyddiannus trwy fentro ac ymchwilio. Er enghraifft, maent yn creu cysgodion gyda fflachlamp a’u bysedd yn yr ardal ddirgel. O ganlyniad, mae’r cynllunio yn ysgogi’r plant i chwarae a dysgu’n effeithiol trwy heriau ymarferol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) y plant. Maent yn eu holi’n fedrus wrth iddynt greu marciau gyda rhaca yn y tywod ac yn herio’r plant i ddefnyddio arian yn y siop elusennol leol. Yn ogystal, maent yn annog y plant i dynnu lluniau o'u gwaith gyda llechi electronig. Fodd bynnag, nid yw’r rhan fwyaf o ymarferwyr pob tro yn annog plant i ymateb yn y Gymraeg.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol y plant yn llwyddiannus fel annog iddynt gropian trwy dwneli a chymysgu finegr a soda pobi mewn poteli plastig i’w lansio fel rocedi. Yn ogystal, maent yn ysgogi’r plant i chwarae yn yr ardal allanol i ddatblygu eu medrau creadigol. Er enghraifft, maent yn annog y plant i ddefnyddio paent a thywod i greu patrymau ar ddrych. Mae'r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau datrys problemau diddorol mewn cyd-destunau bywyd go iawn, sy’n cynnwys defnyddio medrau echddygol manwl y plant i sgwrio tatws a defnyddio gefeiliau.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn dda yn ystod amser byrbryd ac wrth rannu adnoddau fel sialc a myrthylau yn yr ardal allanol. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo egwyddorion sy’n helpu’r plant i wahaniaethu rhwng da a drwg yn effeithiol.

Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru’n dda trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, dawnsio gwerin a chanu rhigymau traddodiadol. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth a’r byd enhangach yn llwyddiannus trwy ddysgu am arferion Diwali a’r Flwyddyn Newydd Tsieiniaidd.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant ar gyfryngau cymdeithasol, mewn adroddiadau blynyddol a thrwy drafodaethau yn y lleoliad.

**Yr amgylchedd:**

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân, ac o ganlyniad, yn hyrwyddo diogelwch a lles plant. Mae gan yr arweinwyr drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i’r adeilad ac maent yn dilyn gweithdrefnau diogelu effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle. Mae’r lleoliad yn cael ei lanhau’n ddyddiol ac yn cael ei gynnal a’i gadw’n dda.

Mae’r ymarferwyr yn diweddaru’r asesiadau risg pwrpasol a thrylwyr yn rheolaidd ac yn eu gweithredu’n effeithiol. Maent yn caniatau i blant gymryd risgiau diogel sy’n effeithio’n gadarnhaol ar eu lles a’u datblygiad. Mae’r asesiadau risg tân yn gynhwysfawr. Cynhelir ymarfer tân bob tymor ac mae’r offer diffodd tân yn cael eu gwirio’n rheolaidd. Mae gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal yn flynyddol ar yr offer trydanol. O ganlyniad mae’r plant yn ddiogel iawn yn y lleoliad.

Mae’r amgylchedd yn groesawgar ac ysgogol a cheir arddangosfeydd deniadol. Defnyddir adnoddau naturiol i greu awyrgylch cartrefol. Er enghraifft, ceir darn o goeden a golau arni yn yr ardal synhwyraidd a defnyddir cylchoedd pren gyda rhifau arnynt i hyrwyddo rhifedd amser cylch. Mae’r amgylchedd yn gynhwysol iawn ac mae pob plentyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gallu cael mynediad rhwydd a chyfartal i’r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Er enghraifft, mae’r fainc â’r feis yn yr ardal dan do yn bwrpasol ar lefel plant oed meithrin fel eu bod yn cael cyfleodd i’w defnyddio.

Mae’r ystafell ymolchi yn cynnwys dau dŷ bach ac ardal newid cewyn. Mae’r ymarferwyr yn parchupreifatrwydd y plant ar bob adeg ac mae prosesau cadarn yn eu lle o ran newid cewyn mewn ardal gyfyng.

Ceir cyflenwad cyfoethog o adnoddau o ansawdd da, sy’n briodol i oedran a datblygiad y plant. Er enghraifft, ceir amrywiaeth o gloriannau hen a newydd er mwyn i blant ddysgu gwahanol ffyrdd o bwyso. Ceir dewis da hefyd o adnoddau i blant ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ailgylchu a chynaliadwyedd. Er enghraifft, wrth ddefnyddio hen lestri a hen gloriannau o'r siop elusen.

Mae’r arweinwyr wedi trefnu'r amgylchedd ysgogol yn llwyddiannus ac yn sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o’r ddarpariaeth. Maent yn defnyddio'r amgylchedd wrth gynllunio cyfleoedd chwarae a dysgu bwriadus a chyffrous i’r plant er mwyn datblygu eu medrau. Er enghraifft, maent yn cynnig cyfleoedd i’r plant gymysgu lliwiau wrth brintio, didoli anifeiliaid ac arbrofi gyda magnedau a darganfyddydd metal. Maent wedi sicrhau llif effeithiol rhwng yr ardal fewnol, yr ardal dan do a’r ardal allanol, a hynny'n ategu at yr ethos holistaidd i hyrwyddo annibyniaeth a datblygiad y plant.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod strategaethau arwain y lleoliad yn drwyadl a sefydlog ac maent yn canolbwyntio’n llwyddiannus ar greu gwelliannau cyson i’r ddarpariaeth.

Mae eu gweledigaeth glir a dibynadwy yn sicrhau bod yr ymarferwyr diwyd yn cydweithio'n frwdfrydig i gefnogi'r dysgu a datblygiad plant. Yn ogystal, maent yn cynnig cymorth bugeiliol gofalus i'r plant, ac yn cefnogi eu rhieni'n ddeallus. O ganlyniad, mae'r holl ymarferwyr yn cymell y plant i wneud eu gorau glas yn gyson, trwy heriau diddorol ac ysgogaeth synhwyrol.

Mae'r arweinwyr yn gosod disgwyliadau dyheadol gan gefnogi a herio pawb i gynnal safonau uchel. Mae eu hadnabyddiaeth o gryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella yn drwyadl ac mae eu polisïau a'u hathroniaeth realistig yn cysoni gwaith y lleoliad yn gelfydd. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso trylwyr yn sicrhau targedau dibynadwy yn y cynllun datblygu fel gwella'r defnydd o'r Gymraeg gan ymarferwyr a phlant. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau manwl ac effeithiol hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar arferion y lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn gweithio'n hyfedr fel tîm. Maent yn gydwybodol ac yn gwrando'n synhwyrol ar awgrymiadau'r arweinwyr a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae gan yr arweinwyr drefniadau cyson i werthuso perfformiad ymarferwyr, ac maent yn goruchwylio a gwerthuso eu gwaith yn rheolaidd. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod arferion recriwto diogel yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n rhan o fywyd y lleoliad. Maent yn cynnal trafodaethau uniongyrchol gyda'r holl randdeiliaid, fel yr awdurdod lleol a mudiadau cefnogi, i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant. Er enghraifft, maent yn gwrando'n ofalus ar y swyddogion cefnogi ynglŷn â datblygu'r arferion cynllunio, a hynny er mwyn dilyn diddordebau'r plant yn well. Yn ogystal, maent yn gweithredu ar awgrymiadau'r rhieni a'r gofalwyr yn ystyrlon, fel trefnu taith gerdded ar lwybr lleol i sgyrsio a chymdeithasu.

Mae'r arweinwyr wedi ffurfio ystod o bartneriaethau lleol buddiol, sy'n cynnig profiadau difyr i'r plant, fel ymweld â siop elusennol i wario arian. Mae'r berthynas gynhyrchiol gyda'r ysgolion lleol yn paratoi'r plant i'r cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n ddoeth. Mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn ardderchog. Maent yn sicrhau digon o ymarferwyr cymwys ac yn galluogi iddynt fynychu hyfforddiant perthnasol. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau gwerthfawr, fel cysgodfa yn yr ardal allanol, meinciau gwaith a chegin fwd i gyfoethogi profiadau dysgu a chwarae'r plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/06/2022